

Nodyn o'r cyfarfod

Teitl y cyfarfod: Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – cyfarfod 72

Dyddiad y cyfarfod: 5 Gorffennaf 2022

Amser y cyfarfod: 10:30 – 13:00

Yn bresennol: Geraint Davies (Cadeirydd), Ruth Rourke (IPROW, Dirprwy Gadeirydd), Rosie Plummer (aelod o Fwrdd CNC), Eben Muse (BMC) (ar-lein), Adrian Walls (CSS Cymru)(ar-lein), John Cuthbertson (Y Cerddwyr Anabl), Dave Waterman (LARA), Rachel Lewis-Davies (NFU), Kate Ashbrook (OSS)*(ar-lein), Phil Stone (CW), Charles de Winton (CLA), Kieran Foster (Cycling UK) (ar-lein)*, Ian Maberley (Fforymau Mynediad Lleol), David Evans (Ymddiriedolaeth Dyffryn Elan)(ar-lein), Scott Ashworth (Defence Estates)(ar-lein), Chris Munro (RYA Cymru) (ar-lein), Anthony Richards (Parciau Cenedlaethol Cymru)(ar-lein), Steve Rayner (WATO), Mathew Williams (WSA)(ar-lein), Sarah Smith (LIC), Simon Pickering (LIC) (ar-lein), Carys Drew (Ysgrifenyddiaeth CNC), Dave Liddy (CNC), Jont Bulbeck (CNC), Iola Llwyd (Cyfieithydd)

*dirprwyo ar ran cynrychiolydd arferol

Ymddiheuriadau: Helen Donnan (BHS), Rachel Evans (CA), Gwenda Owen (Cycling UK), Bernard Griffiths (FUW), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) Beverley Penney (OSS), Rebecca Brough (Cerddwyr Cymru), Andy Rowe (Sustrans), Kerry Thatcher (Croeso Cymru)

Sylwedyddion Tony Rooney (Dirprwy Gynrychiolydd Cenedlaethol Cymru Fforymau Mynediad Lleol), Paula Brunt (Y Cerddwyr Anabl), Eifion Jones (Cyngor Sir Ceredigion), Sophie Birchall-Rogerson (Cyngor Sir Conwy), Hannah Arndt (Cyngor Sir Ddinbych), Peter White (Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion), Alison Roberts (CNC), Dave MacCallum (CNC), Quentin Grimley (CNC), Michael Smith (CNC)

Rhif
Eitem: Eitem

Croeso ac Ymddiheuriadau

1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol yn bersonol ac ar-lein. Nodwyd ymddiheuriadau a materion ynghylch trefniadau ymarferol y dydd. Croesawyd y sylwedyddion ac fe'u hatgoffwyd i arsylwi yn hytrach na chymryd rhan yn y cyfarfod. Roedd y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn creu crynodeb o'r cyfarfod ac yna byddai'n cael ei ddileu. Nodyn cryno yw'r cofnod o'r cyfarfod yn hytrach na chofnod gair am air.

Camau Gweithredu a Materion sy'n Codi

2. Cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog

Dywedodd y Cadeirydd fod y Dirprwy Weinidog wedi canslo'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 15 Mehefin - bydd yn cael ei aildrefnu (fel y nodwyd yn niweddariad ysgrifenedig LIC).

Cyfeiriad a thueddiadau'r dyfodol o ran defnyddio e-feiciau oddi ar y ffordd a'r effaith ym Mhrydain Fawr: rhannu canfyddiadau'r adroddiad

3. Nododd Dave Liddy, Cynghorydd Arbenigol Diogelwch Hamdden, fod ganddo gysylltiad hir â Forestry Commission England a Forestry Land Scotland a bod y sefydliadau wedi nodi materion tebyg, a'u bod i gyd wedi'u cyfrannu at ddarn o ymchwil ar y cyd. Nododd fod rhai cymhlethdodau oherwydd deddfwriaeth mynediad, codau mynediad a therminoleg gwahanol. Cynhaliwyd yr ymchwil gan Brifysgol Napier Caeredin gyda British Cycling yn arwain y consortiwm o bartneriaid (Forestry and Land Scotland, Forestry England, Nature Scot a CNC). Mae'r gwaith wedi cael ei rannu gyda Fforwm Mynediad yr Alban hefyd er mwyn cael eu syniadau a'u sylwadau.

Bydd angen i'r sefydliadau comisiynu benderfynu sut i ymateb i'r gwaith hwn wrth symud ymlaen. Byddai Dave yn croesawu sylwadau gan y Fforwm ac yn hapus i rannu'r adroddiad manwl.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth a grwpiau ffocws i ddarganfod beth oedd barn y sector er mwyn arwain yr ymchwil. Yn sgil ymchwil helaeth i'r pwnc a'r arolwg ar-lein, nododd Dave fod Cymru'n cael ei chynrychioli'n dda yn yr ymateb.

Rhannodd Dave rai o ganfyddiadau allweddol canlyniadau'r arolwg yn ymwneud â:

- demograffeg defnyddwyr,
-

-
- y farchnad e-feiciau (1 o bob 20 sy'n cael ei werthu yn e-feic – mae hwn yn sector sy'n tyfu ac sydd wedi mynd y tu hwnt i ragolygon y farchnad)
 - rhwystrau i fynediad
 - canfyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd (mae hanner problemau iechyd y boblogaeth seiclo gan y defnyddwyr), ymddygiad (yr effeithir arno gan bryder batri – tueddiad i wneud mwy o lapiau o'r un cylch beicio), a risg (nid y prif gymhellant ar gyfer gweithgaredd)
 - dealltwriaeth o ymddygiad e-feicwyr ac agweddau at yr amgylchedd
 - sut mae'r sector yn dod o hyd i'w wybodaeth – er mwyn canfod y ffordd orau o rannu gwybodaeth a dylanwadu ar ymddygiad i wella mynediad cyfrifol
 - goblygiadau i'r rheolwyr mewn perthynas â sut mae e-feicwyr mynydd yn reidio a'r cyfleusterau maen nhw eu heisiau
 - e-feiciau a'r gyfraith a hawliau mynediad (cyferbyniad sylweddol rhwng mwy o wybodaeth am hawliau mynediad yn yr Alban o gymharu â Chymru a Lloegr) – nododd Dave y gallai fod rôl i'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn hyn o beth wrth helpu i rannu gwybodaeth ac addysg am ble y gallant fynd

Pwyntiau trafod:

- Mae e-feiciau'n drymach na beiciau mynydd eraill – mae'r adroddiad yn argymhell darganfod mwy am ddifrod posibl ac am amgylcheddau sensitif e.e. wrth eu defnyddio mewn amodau gwlyb
 - Mae Cycling UK yn edrych ar y gwahaniaeth yn y ffordd mae llwybrau'n cael eu reidio yn hytrach na phwysau'r beic. Mae trafodaeth am gael gwared ar y terfyn presennol o 250W felly mae'n bosib y bydd problemau yn y cyswllt yna
 - Materion yn ymwneud ag ymyrryd â'r sglodyn e-feic er mwyn galluogi mwy o bŵer - nodwyd bod hyn yn torri'r gyfraith ac yn peryglu colli trwydded gyrrwr car
 - Nid oes unrhyw awydd am bwyntiau gwefru mewn canolfannau llwybrau gan nad yw'r gallu i gysylltu am ychydig funudau yn cael unrhyw effaith ar wefru'r batri - yn hytrach mae'n bwysicach bod y cyfleusterau hyn mewn safleoedd gwerau a llety gwely a brecwast
 - Mae cynllun llwybrau prosiect [DIRTT](#) yn datblygu beicio mynydd gyda chysylltiadau yn Ewrop
 - Pryder am ryngweithio gyda defnyddwyr eraill, e.e. marchogwyr. Nodwyd bod yr angen am ddefnydd cyfrifol yn parhau boed yn e-feic neu analog
-

-
- O ran addysg a chod ymddygiad – dechreuodd Cycling UK ddatblygu cod ymddygiad ar y cyd â'r diwydiant – a roddwyd o'r neilltu yn sgil ailwampio'r Cod Cefn Gwlad. Awgrymwyd bod gan Natural England fwriad i ddarparu rhai codau penodol i weithgaredd, mae Cycling UK wedi bod yn aros i glywed sut y bydd hynny'n cael ei ddwyn ymlaen. Hoffent weld y cod yn cael ei ddatblygu, gan weithio gyda phartneriaid eraill o bosib.
 - Ni chafodd ystadegau am ddamweiniau eu cynnwys yn y gwaith ymchwil hwn.
-

Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru: Crynodeb o ganfyddiadau allweddol i'w trafod

Cyflwynodd Jont Bulbeck, Arweinydd y Tîm Mynediad Awyr Agored a Hamdden, ganlyniadau Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru: Crynodeb o ganfyddiadau allweddol i'w trafod. Quentin Grimley oedd arweinydd y gwaith (ymunodd ar-lein i gynorthwyo gyda'r drafodaeth yn y sesiwn Holi ac Ateb)

Mae Llwybr Arfordir Cymru'n dathlu ei ddeng mlwyddiant eleni. Mae gofyn am lawer o waith rheoli er mwyn cyrraedd y pwynt hwn, gan ddwyn llawer o bartneriaid a rhanddeiliaid ynghyd. Mae angen monitro a gwerthuso'r gwaith hwn fel y gellir ei reoli yn y ffyrdd gorau. I wneud hyn, gwneir arolwg cyflwr o'r llwybr yn ogystal â gwerthuso cyhoeddusrwydd. Elfen hanfodol arall yw sut mae pobl yn defnyddio'r llwybr a'u profiad. Dyma drydydd arolwg defnyddiwr Llwybr Arfordir Cymru. Cynhaliwyd yr astudiaeth hon gan gwmni Beaufort Research ar ran CNC yn ystod 2019-2021. Rhannodd Jont yr uchafbwyntiau ar lefel genedlaethol; mae'r adroddiad manwl llawn ar gael ac mae'n cynnwys dadansoddi rhanbarthol. Nododd fod pandemig Covid wedi torri ar draws yr arolwg ond galluogodd hynny i rywfaint o ddata gael ei gasglu am effaith Covid ar y defnydd o Llwybr Arfordir Cymru.

4.

Roedd y cyflwyniad yn trafod trosolwg yr arolwg (cefndir, amcanion a methodoleg) ac uchafbwyntiau o'r ymchwil am:

- Bwy sy'n defnyddio Llwybr Arfordir Cymru - (o ble maen nhw'n dod, pwy maen nhw'n ymweld â nhw, oedran a rhywedd, a phroffil ymwelwyr)
 - Cyfran y defnyddwyr sy'n aros dros nos yng Nghymru a'r llety maen nhw'n ei ddefnyddio
 - Beth sy'n ysgogi pobl i ddefnyddio Llwybr yr Arfordir a sut maen nhw'n ei ddefnyddio
 - Gwariant ymwelwyr
 - Lefelau bodlonrwydd defnyddwyr gyda gwahanol agweddau ar Llwybr yr Arfordir, sydd, law yn llaw â'r arolwg cyflwr, yn rhoi dealltwriaeth ar gyfer rheoli llwybrau, a darpariaeth gwybodaeth
-

-
- Effaith Covid-19 – cymharu misoedd cyfatebol o arolygon blaenorol

Defnyddir amrywiaeth o wybodaeth i fonitro a gwerthuso, mae arolygon cyflwr yn cyfrannu at gynlluniau rheoli rhanbarthol, a bydd yr arolwg hwn yn helpu i'w llywio a throi canlyniadau'n weithredu ymarferol.

Pwyntiau trafod:

- Mae p'un a yw defnydd pellter byrrach yn nodweddiadol o bob llwybr pellter hir megis Llwybrau Cenedlaethol – mae'n ymddangos bod hyn yn wir ond mae arolwg tebyg na wnaed ar Llwybrau Cenedlaethol, wedi nodi'r angen i wneud hynny
- Roedd y gwariant y pen yn ymddangos yn gymharol isel, mae'n ymddangos bod argaeledd gwybodaeth yn faes i'w wella – ffynonellau gwybodaeth e.e. priodas economaidd i gael 'canolfan wybodaeth' swyddogol mewn gwahanol ardaloedd
- Mae darparu gwybodaeth yn fwy cymhleth i ddylanwadu arno 'ar lafar' ac mae dylanwadau diwylliannol a theuluol yn allweddol i ganfod pobl
- Darparwyd yr adroddiad ymchwil a gwybodaeth gefndirol arall i'r [Adolygiad Annibynnol o Lwybr Arfordir Cymru](#) a arweiniwyd gan Huw Irranca-Davies AS. Bydd yr adolygiad hwnnw'n cael ei ystyried gyda rheolwyr Llwybr Arfordir Cymru ac yn cael ei ystyried wrth reoli yn y dyfodol.

Cyfraniadau Ysgrifenedig

Roedd cyfraniadau ysgrifenedig wedi cael eu dosbarthu ac atgoffwyd yr aelodau eu bod yn rhoi cyfle da i rannu gwaith eu sefydliad ag aelodau eraill. Mae'r slot hwn yn galluogi cyfranwyr i dynnu sylw at unrhyw bwyntiau ac i ateb cwestiynau ar eu heitemau. Gellid cyflwyno unrhyw ddiweddariadau pellach i Carys erbyn 8 Gorffennaf i'w cynnwys yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir.

Pwyntiau trafod:

5.
 - Gan nodi'r diweddariad gan Lywodraeth Cymru, roedd y cyfarfod yn siomedig bod y cyfarfod arfaethedig gyda'r Dirprwy Weinidog wedi'i ganslo unwaith eto. Awgrymwyd, gan fod amser yn mynd rhagddo, y byddai'r rhanddeiliaid sy'n cael eu heffeithio gan yr ystyriaethau yn hoffi bod yn y cyfarfod pan gaiff ei aildrefnu i gyfrannu eu gwybodaeth at y drafodaeth. Er i'r Cadeirydd nodi'r risg y gallai'r cyfarfod fynd yn rhy fawr, roedd yn hapus i gytuno i'r cais hwn. Deallwyd bod sefydliadau pysgota wedi cyfarfod â'r Gweinidog yn gynharach eleni. Roedd aelodau'r is-grŵp yn teimlo bod llawer wedi'i gyflawni yn eu gwaith ac roedd partïon yn awyddus i ddod o hyd i fecanwaith i wneud cynnydd gan nad yw'r materion wedi diflannu.
-

-
- Nododd Jont Bulbeck, ar wahân i gyfarfod â'r Dirprwy Weinidog, o safbwynt CNC o ran gwasanaethu, gweithio a llywodraethu is-grŵp, nid yw'n rhywbeth y gallai CNC ymdrin ag ef drwy'r Fforwm yn y ffordd yr oedd yn cael ei wneud o'r blaen ac y byddai'n chwilio am fecanwaith arall i'w symud ymlaen.
 - **Gweithredu:** Carys i e-bostio aelodau'r Fforwm i wneud trefniadau i gynrychiolwyr eraill fynychu'r cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog a chysylltu â Sarah Smith.
 - Cododd Ian Maberley faterion a godwyd yn ddiweddar yn Fforwm Mynediad Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n faterion cenedlaethol:
 - **Cyngor i gerddwyr â chŵn:** Awgrymwyd bod diffyg ymwybyddiaeth a dryswch ynghylch argymhellion ar gyfer cerdded gyda chŵn mewn ardaloedd lle mae da byw, bod 'ar dennyn' neu dan 'reolaeth agos' a therminoleg arall a ddefnyddir mewn adroddiadau ARAG. Pan fo lloï gyda gwartheg, roedd yn deall yr awgrymir y dylech adael i'r ci fynd er mwyn osgoi cael eich sathru ond nid oedd wedi dod o hyd i hyn mewn cyngor oedd wedi'i gyhoeddi nac ar arwyddion.
 - Nodwyd bod y Cod Cefn Gwlad yn cynnwys cyngor am gŵn gan gynnwys mewn achos o deimlo dan fygythiad gan dda byw neu geffylau [Cyfoeth Naturiol Cymru / Y Cod Cefn Gwlad: cyngor i'r rhai sy'n ymweld â chefn gwlad](#). Mae rhagor o wybodaeth fanwl yn [Cyfoeth Naturiol Cymru / Y Cod Cerdded Cŵn](#)
 - Mae'n bwysig nodi bod adroddiadau ARAG yn gyngor i Lywodraeth Cymru am gynigion diwygio mynediad ac nid yn gyngor i'r cyhoedd
 - Gallai fod yn ddefnyddiol ehangu'r cyngor. Enghreifftiau o arwyddion ar safleoedd sy'n cynnwys y cyngor hwn e.e. NFU
 - Mae'r cyngor ar gael, ond mae pryder am ddiffyg ymwybyddiaeth. Mae rôl i'r Fforwm fynd â'r negeseuon hyn yn ôl i sicrhau bod pobl yn ymwybodol ohonynt. Maes posib i'w ystyried ymhellach gan y Fforwm
 - **Plannu coed:** y mater o gynnydd mewn plannu coed ac effaith ar dir agored - heb reolaeth mae'n debyg
 - Nodwyd bod plannu coed yn cael ei reoleiddio. Nodwyd nifer o bryderon gan aelodau mewn perthynas â hyn am:
 - Blannu ar Wlad Agored a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar fynediad
 - Mae tir comin yn un math o dir mynediad – mae angen caniatâd gan Weinidogion ar gyfer unrhyw ffensio. Ar dir mynediad agored arall, mae'n debygol y byddai'n cael ei ddileu yn yr adolygiad 10 mlynedd
-

-
- Mynegwyd pryder gan sefydliadau ffermio bod angen proses gwneud penderfyniadau ehangach sy'n ystyried agweddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol
 - Gallai cynlluniau gan gorfforaethau mawr at ddiben atafaelu carbon arwain at golli mynediad
- Nododd bod tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored CNC wedi cyfrannu cyngor ynghylch Mynediad Agored, hawliau tramwy cyhoeddus, y mynediad lleiaf cyfyngol at gyngor CNC i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynlluniau creu coetiroedd wedi'u hariannu
-

Rheoli'r Defnydd o Gerbydau Modur yng Nghefn Gwlad: Canllaw Arferion Da i Reoli Traffig ar Ffyrdd Cyhoeddus Heb Wyneb.

Cyflwynodd Dave Waterman, ar ran LARA, ei hun ac esboniodd ei gefndir, sef ei fod wedi gweithio yn Defra yn y gorffennol am flynyddoedd lawer ym maes polisi a deddfwriaeth hawliau tramwy, mynediad ehangach i gefn gwlad a pholisi'n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol. Yn fwyaf diweddar roedd wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith i LARA gan gynnwys gwaith ar y cyhoeddiad hwn.

Eglurodd fod LARA (The Motoring Associations' Land Access and Recreation Association) yn Fforwm sy'n dwyn ynghyd y cymdeithasau cenedlaethol blaenllaw ym maes chwaraeon moduro a hamdden sydd:

- yn hyrwyddo ac yn siarad o blaid chwaraeon modur a hamdden cyfrifol a chynaliadwy ac yn cynnig cyngor a hyfforddiant ar ddefnydd tir
- 6.
- wedi bod yn flaenllaw yn yr ymdrech ar lawr gwlad i atal defnydd anghyfreithlon ac anghyfrifol o gerbydau modur yn yr amgylchedd naturiol
 - yn sefydliad ymbarél (yn hytrach na chorff ynddo'i hun) sy'n cyfuno gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad ac mae'r wefan yn ystorfa ar gyfer arweiniad defnyddiol a dogfennau cyfeirio

Cyfeiriodd Dave at y canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar https://laragb.org/pdf/LARA_20220613_ManagingMotorVehicleUse.pdf

ac aeth yn ei flaen i siarad am y cyd-destun yn ymwneud â chynhyrchu'r canllawiau, sy'n cwblhau'r gwaith o adnewyddu cyfres o bedair dogfen ganllawiau i ymdrin â phrif agweddau rheoli ffyrdd heb wyneb. Mae'r dogfennau hyn yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen, a nododd mai'r ffordd orau o'u darllen oedd ochr yn ochr â chanllawiau Defra a'u bod yn cyfeirio at y canllawiau hynny.

Dechreuodd LARA ar waith adnewyddu ar ôl atal gweithgarwch ar Weithgor Rhanddeiliaid Moduro Natural England er mwyn cyfuno a rhannu arbenigedd a gwybodaeth. Mae aelodau LARA yn poeni am ffyrdd gwyrdd ac o ystyried y

bygythiad o gael gwared ar fynediad i gerbydau modur – y nod gyda'r canllawiau yw annog gwell rheolaeth yn hytrach na chau.

Gall moduro hamdden ar lwybrau heb wyneb fod yn fater emosiynol a dadleuol. Cyfeiriodd at rai o'r rhesymau am hyn. Nododd fod gan ddefnyddwyr eraill rwydweithiau mynediad mwy na modurwyr hamdden, sydd am gael manteision meddyliol a chorfforol mynediad i gefn gwlad hefyd. O ystyried bod adnoddau amgylchedd naturiol yn gyfyngedig, mae angen rhywfaint o rannu a goddefgarwch tuag at eraill.

Aeth ymlaen i egluro:

- beth yw rheoli traffig a sut mae'n ymwneud â dyletswyddau a phwerau eraill awdurdodau – gan wneud y pwynt bod costau rheoli a chynnal a chadw yn cael eu derbyn ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus eraill, a bod hynny'n arfer safonol er mwyn sicrhau budd, ond yn aml yr ymateb ar gyfer hawliau cerbydol yw cau – mae'r canllawiau'n rhoi llawer o syniadau ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau'n effeithiol
- Cydbwysio manteision ac anfanteision – yn union fel gyda phrifyrdd cyhoeddus eraill
- Mynediad cefn gwlad cynhwysol – cyfeiriodd at ganllawiau gan GLASS [InclusiveCountrysideAccess.pdf \(glass-uk.org\)](#) sy'n cynnwys astudiaethau achos diddorol ar anabled
- Pam mae rheoli'n ateb gwell na chau

I grynhoi, dywedodd mai bwriad y canllawiau yw darparu amrywiaeth o syniadau ynghylch sut i reoli ffyrdd gwyrdd yn adeiladol, er mwyn cael y canlyniad gorau i bob defnyddiwr. Nododd fod yr holl bwerau yn eu lle. Os nad yw'r adnoddau yno i ddatrys problem, nid yw cau'n mynd i gynnig ateb gwell. Er na fydd cydweithio â defnyddwyr cyfrifol yn cael gwared ar bob problem, dywedodd y byddai'n ganlyniad gwell na gwaharddiad.

Pwyntiau trafod:

- Roedd yna Grŵp Llywio Beiciau Modur Oddi ar y Ffordd Cymru oedd wedi bod yn ceisio gwneud cynnydd yn y maes hwn yng Nghymru ond nid oedd wedi cyfarfod ers sawl blwyddyn
 - Problem mewn amgylchedd sensitif ym Mhowys a Cheredigion, anallu awdurdodau i ymdrin â'r broblem. Y farn yw bod rhoi gwaharddiad ar waith yn galluogi i gamau gorfodi gael eu cymryd
 - Mae LARA yn nodi bod angen cyfyngiadau neu waharddiadau mewn rhai achosion, lle mae rheswm rhesymegol a chynllun ar gyfer sut i ymdrin â phroblem yn hytrach na dull cyffredinol nad yw'n foddhaol
 - Mae'n ddiddorol gweld canllawiau strwythuredig a gweld bod lefelau penodol o orfodaeth yn angenrheidiol ond bod addasiadau'n bosib. Dod â gwybodaeth at ei gilydd yn ddefnyddiol iawn
-

-
- Croesawu'r canllawiau, ac ystyried bod hyn yn wybodaeth glir a defnyddiol gyda throsolwg da o fecanweithiau cyfreithiol
 - Nododd y gall fod yn anodd i awdurdodau gysylltu â chynrychiolwyr LARA lleol. Byddai awdurdodau'n croesawu mwy o ymgysylltiad â chynrychiolwyr
 - Nododd Dave mai'r ffordd orau o gysylltu yn y lle cyntaf yw trwy e-bost admin@laragb.org
-

Edrych ymlaen a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:

- 22 Tachwedd 2022 a 14 Mawrth 2023

7. Bydd Carys yn anfon e-bost i wahodd adborth gan y mynychwyr am y cyfarfod hwn er mwyn llywio sut y cynhelir cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae disgwyl i rai o'r rhain fod ar-lein.

Mae Carys wedi dechrau datblygu dogfen ragolwg i helpu cynllunio ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, a hoffai annog aelodau i gyflwyno eitemau am eu gwaith yn y dyfodol i'w rhannu ag aelodau eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau, a daeth â'r cyfarfod i ben
